# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Is Bwyllgor Polisi y Cyngor – nos Iau, 13eg o Fai 2021 drwy Zoom yn brydlon am 6:30 y.h. am oddeutu hanner awr.**
**Fe anfonir linc i ymuno cyn y cyfarfod.**
Materion angen sylw oherwydd na ellir cynnal cyfarfod yn y man arferfol, oherwydd y 'COVID 19'.

1. Yn bresennol – Cynghorwyr Margaret Griffith, Thomas Prys Jones, Trefor Wyn Jones, Angela Williams

Ymddiheuriadau- neb.

**Materion i'w trafod**

2. **A oes angen diweddaru y polisiau isod**, mae'r mwyafrif wedi cael ei mabwysiadu gan y Cyngor ar 05.04.2018 am gyfnod o 4 mlynedd, i ddiweddu ar 05.04.2022. Maent i'w gweld ar y wefan, ac mae'r Clerc wedi anfon copi o rai ohonynt drwy ebost at y cynghorwyr sydd ar y Pwyllgor Rheolau Sefydlog a Pholisiau ac amodau gwaith.

***Cytunwyd i adnewyddu'r polisiau ar y noson, a bod y tymor dinesig newydd yn 5 mlynedd. Mae hefyd angen ei diweddaru yn ystod y chwe mis cyntaf o bob tymor dinesig newydd, a bod angen llofnod y Cadeirydd a'r Clerc wedi ei ddyddio ar bob un.***

| Polisi | Dyddiad mabwysiadu | Cymraeg | Saesneg |
|---|---|---|---|
| Rheolau Sefydlog | 05.04.2018 – am 4 mlynedd & dod i ben 05.04.2022<br><br>*Penderfynwyd fod angen dileu'r Rheol 47 blaenorol, sef 'Ni fydd gan Etholwyr hawl i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor'.*<br>*Newid Rheol 48 i fod yn 47, sef fod gan aelodau o'r cyhoedd hawl i siarad siarad ar ddechrau'r cyfarfod.*<br>*Diweddaru bob 5 mlynedd yn lle 4.* | Ydi | Ydi |
| Polisi Iaith | 05.04.2018 – am 4 mlynedd & dod i ben 05.04.2022.<br>*Penderfynwyd fod angen ei diweddaru yn ystod y chwe mis cyntaf o bob tymor dinesig newydd, a bod angen llofnod y Cadeirydd a'r Clerc wedi ei ddyddio ar bob un.*<br>*Diweddaru bob 5 mlynedd yn lle 4.* | Ydi | Ydi |
| Polisi Cyfle Cyfartal | 05.04.2018 – am 4 mlynedd & dod i ben 05.04.2022<br>*Penderfynwyd fod angen ei diweddaru yn ystod y chwe mis cyntaf o bob tymor dinesig newydd, a bod angen llofnod y Cadeirydd a'r Clerc wedi ei ddyddio ar bob un.*<br>*Diweddaru bob 5 mlynedd yn lle 4.* | Ydi | Ydi |
| Polisi Amgylcheddol | 05.04.2018 – am 4 mlynedd & dod i ben 05.04.2022<br>*Penderfynwyd fod angen ei diweddaru yn ystod y chwe mis cyntaf o bob tymor dinesig newydd, a bod angen llofnod y Cadeirydd a'r Clerc wedi ei ddyddio ar bob un.*<br>*Diweddaru bob 5 mlynedd yn lle 4.* | Ydi | Ydi |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Datganiad Polisi | 05.04.2018 – am 4 mlynedd & dod i ben 05.04.2022<br>*Penderfynwyd fod angen ei diweddaru yn ystod y chwe mis cyntaf o bob tymor dinesig newydd, a bod angen llofnod y Cadeirydd a'r Clerc wedi ei ddyddio ar bob un. Diweddaru bob 5 mlynedd yn lle 4.* | Ydi | Ydi |
| Cod Ymddygiad Aelodau | Dyddiad Mehefin 2018<br>*Angen nodi mai Cód Ymddygiad Cyngor Gwynedd a ddefnyddiwyd, a bod angen ei roi o flaen y Cyngor. Penderfynwyd fod angen ei diweddaru yn ystod y chwe mis cyntaf o bob tymor dinesig newydd, a bod angen llofnod y Cadeirydd a'r Clerc wedi ei ddyddio ar bob un.* | Ydi | Ydi |
| Polisi ar Ddiogelu Gwybodaeth a Data | 03.01.2019<br>*Penderfynwyd fod angen newid y 3ydd paragraff i fod yn '6 mis cyntaf' ac yna llofnod Cadeirydd a'r Clerc.* | Ydi | Na |
| Polisi Rheoliadau Ariannol | 07.11.2019 - pwynt 18.2 yn dweud bydd y Rheoliadau yn cael ei hadolygu yn ystod y 6 mis cyntaf o bob tymor newydd.<br>*Nodwyd fod y Polisi Ariannol yn agor fel Diogelu Data ar y wefan - y Clerc am ofyn i Delwedd ei gywiro. Diweddaru bob 5 mlynedd yn lle 4.* | Ydi | Na |
| Adroddiad Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | 09.01.2020- arfarnu ym mis Rhagfyr bob blwyddyn<br>*Adroddiad oedd hwn ac nid polisi felly dimangen ei newid.* | Ydi | Na |
| Polisi Asesiad Risg | Nid oes dyddiad arno<br>*Gweler pwynt 3 isod.* | Ydi | Na |
| Pwyllgor Cyllid/Busnes – Cylch Gorchwyl | 05.03.2020 - dim newidiadau. | Ydi | Na |

3. Y Clerc wedi creu **Asesiad Risg y Cyngor** hefyd, a dylid ei ddiweddaru yn flynyddol a'i osod ar y wefan. Roedd drafft ohono wedi cael ei anfon at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod er mwyn ei drafod, gan obeithio y gellir ei roi ar y wefan wedyn.
***Gofynwyd i'r Clerc ail edrych ar y colofnau ffigyrau yn y colofnau 'sgor', a'i anfon at y Cynghorwyr Pwyllgor Polisi cyn y cyfarfod ar 03.06.2021, er mwyn gallu ei mabwysiadu ar 03.06.2021.***

4. **A oes angen trefnu i gyfieithu'r polisiau** sydd ar y wefan i gyd?
***Cytunwyd nad oedd angen ei cyfieithu ar hyn o bryd.***

5. **A oes angen cyfieithu'r rhaglen a chofnodion** sydd ar y wefan hefyd?
***Cytunwyd nad oedd angen ei cyfieithu ar hyn o bryd, ac mae'r Clerc yn rhoi nodyn ar ei gwaelod i ddweud*** "It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk." ***cyn ei rhoi ar y wé.***
6. Unrhyw fater arall – Bydd angen cadarnhau y newidiadau uchod yn y prif cyfarfod 03.06.2021.